**Sioe Awyr Cymru**

**Amodau a Thelerau ar gyfer Deiliaid Tocynnau Meysydd Parcio'r Digwyddiad**

NID OES MODD CYFNEWID NEU AILWERTHU TOCYNNAU

1. Mae Cyngor Abertawe'n cadw'r hawl i wrthod mynediad i ddeiliad y tocyn os yw, ym marn rhesymol trefnydd y digwyddiad, yn peri risg i ddiogelwch cynulleidfa a/neu y deiliad a/neu gall effeithio ar fwynhad y gynulleidfa a/neu rhedeg y digwyddiad.

2. Nid yw Cyngor Abertawe'n derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled, niwed neu ddifrod i'r deiliad neu eiddo'r deiliad.

3. Os yw'r digwyddiad yn cael ei ganslo, gall y deiliad ofyn i Gyngor Abertawe ad-dalu pris gwerth enwol y tocyn. Bernir y digwyddiad aml-arddangosiad hwn drwy gyfeirio at y thema gyffredinol yn hytrach na'r arddangosiadau unigol sydd wedi'u trefnu. Felly os nad yw arddangosiad sydd wedi'i drefnu'n gallu mynd rhagddo, am resymau na ellir eu hosgoi, ond mae Dinas a Sir Abertawe'n parhau i gynnal y digwyddiad, ni roddir unrhyw ad-daliadau. Nid yw ffïoedd archebu a chostau postio'n ad-daladwy dan unrhyw amgylchiadau.

4. Er mwyn osgoi amheuaeth, os yw deiliad tocyn yn dewis peidio â defnyddio tocyn ar gyfer sesiwn benodol, ni roddir ad-daliad.

5. Ni chaniateir i gerbydau ddychwelyd i’r maes parcio ar ôl gadael y maes parcio.

6. Efallai y bydd meysydd parcio wedi'u lleoli ar dir glas, a gall y tir fod yn anwastad. Efallai y bydd ffyrdd a rampiau dros dro. Byddwch yn ofalus wrth gerdded ar y ffyrdd a'r rampiau hyn ac oddi arnynt neu wrth eu croesi mewn cadeiriau olwyn neu fygis.

7. Mae cwsmeriaid yn cytuno eu bod yn prynu e-docyn digidol gyda chôd QR a fydd yn cael ei sganio wrth fynedfa'r maes parcio. Gall cwsmeriaid naill ai argraffu'r tocyn <u>neu</u> ddangos eu harcheb ar ddyfais ddigidol. Rhaid dangos prawf o'r archeb a rhaid i'r côd QR fod yn glir i'r ariannwr allu sganio'r tocyn.

8. Er mwyn atal twyll, ni chaiff unrhyw docynnau eu disodli na'u had-dalu os ydych wedi'u hanghofio neu eu colli, neu os oes rhywun wedi'u dwyn, eu difetha, eu difrodi neu fel arall, os nad ydynt ar gael gennych.

9. Efallai y bydd ffi weinyddol/ffi archebu wrth brynu tocynnau; gall hyn amrywio gyda phob Swyddfa Docynnau unigol.

10. Ni chaniateir ailwerthu tocynnau, defnyddio tocynnau ar gyfer cystadlaethau, hyrwyddiadau neu becynnau lletygarwch heb ganiatâd ysgrifenedig Cyngor Abertawe. Ni fydd unrhyw docynnau sy'n cael eu hail-werthu neu eu trosglwyddo yn y modd hwn yn ddilys, a gellir gwrthod mynediad i'r deiliad.

**Cyffredinol**

11. Mae'r holl arddangosiadau, gan gynnwys asedau awyr milwrol, ar gael yn amodol ar ofynion gwasanaeth ac mae'r holl arddangosiadau awyr yn amodol ar amodau awyr addas.

12. O ran diogelwch, peidiwch â dod ag eitemau gwydr, barbeciwiau, balŵns, dronau, canhwyllau na ffaglau wedi'u cynnau.

13. Os bydd y deiliad yn torri unrhyw un o'r amodau hyn, mae gan Gyngor Abertawe'r hawl i ganslo'r tocyn hwn a chadw unrhyw arian a dalwyd amdano

14. Mae'n rhaid i ddeiliad tocynnau gydymffurfio â'r holl gyfarwyddiadau a roddir gan bersonél a stiwardiaid pan fyddant yn y digwyddiad.

15. Mae deiliaid tocynnau'n cytuno y bydd unrhyw ddelweddau, fideos neu recordiadau sain a geir yn y digwyddiad yn cael eu defnyddio at ddibenion preifat a domestig yn unig ac ni allant gael eu defnyddio at unrhyw ddibenion masnachol, ar y rhyngrwyd neu fel arall.

16. Mae gan Gyngor Abertawe'r hawl i gopïo, defnyddio a gwneud ar gael unrhyw luniau, fideos neu recordiadau sain y mae deiliaid tocynnau yn eu creu, heb orfod talu amdanynt na chydnabod mai'r deiliad tocyn sydd wedi creu'r deunydd hwnnw.

17. Mae Cyngor Abertawe'n cadw'r hawl i wneud unrhyw addasiadau i'r amserlen a hysbysebir.

18. Mae deiliaid tocynnau'n rhyddhau Cyngor Abertawe o unrhyw atebolrwydd am golled neu ddifrod i eiddo personol a all ddeillio o'r digwyddiad. Ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

19. Mae'r rhai sy'n dod i'r digwyddiad yn deall y gall y trefniadau ar gyfer y digwyddiad gael eu newid gan amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y trefnwyr, a all arwain at oedi, gohirio neu ganslo'r digwyddiad heb rybudd. Ni fydd gan Gyngor Abertawe unrhyw atebolrwydd i ddeiliad tocynnau o ran y fath oedi, gohirio neu ganslo.

20. Nid oes modd cynnal unrhyw weithgarwch masnachol neu hyrwyddol/hysbysebu/ marchnata yn y digwyddiad neu'r cyffiniau.

21. Ni all y rheini sy'n mynd i'r digwyddiad gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd y mae trefnwyr yn ystyried ei fod yn ymwneud â marchnata neu hysbysebu anawdurdodedig (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, marchnata unigol neu grŵp).

RHYBUDD:

Digwyddiad awyr agored yw hwn. Byddwch yn barod am dywydd garw. Bydd y digwyddiad yn digwydd boed law neu hindda

Gall fod yn agored i sŵn uchel effeithio ar eich clyw.